**Cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid nos Fercher 7fed o Hydref 2020**
**yn Rhithiol am 7.00pm.**

# Cofnodion

Presennol Cyng L A James (Cadeirydd) Cyng D Jones-Morris Cyng D W Jones a Cyng B Jones

Ymddiheuriadau Cyng J Pierce

Cod Ymddygiad Atgoffwyd pawb o'r Cod ymddygiad ag os oedd gan rhywun angen datgan buddiant yna byddai angen iddynt wneud hynny ar lafar heno fel y gallai'r Clerc gofnodi
Ni fu unrhyw Ddatgan Buddiant

Cofnodion Cyfarfod diwethaf 02-09-2020
Cyng D Jones-Morris yn cynnig a'r Cyng B Jones yn eilio eu bod yn gofnodion cywir

Materion yn codi o'r cofnodion
Nid oedd materion yn codi na fyddai yn cael ei trafod o'r Agenda

Adroddiad Ariannol Rhannwyd mantolen ariannol gyfredol oedd yn dangos £45,306.82 yn y Cyfrif Cyfredol a £25,036.06 yn y cyfrif Cadw ond mantolen y cyfrif hwnnw wedi cyrraedd bore y cyfarfod yn dangos llog o £0.51c

Archwylwyr Allannol
Y Clerc wedi anfon popeth oedd ei angen at BDO ond dim ymateb wedi dod yn ol

Ceisiadau Nawdd .

- Ysgol Feithrin Penrhos Cais a Llythyr ynghyd a Mantolen gyfredol wedi ei derbyn **Argymell cynnig nawdd o £300.00**

Argymell Talu D W Lewis Torri gwair Medi £800.00

Cyflog a Treth Incwm Mis Hydref
Y Clerc erbyn hyn yn talu drwy Drosglwyddo dros y ffon a hynny fel arfer o gwmpas canol y Mis 14eg i 16eg **Manylion Hydref heb gyrraedd i gadarnhau ffigyrau**

Derbynebion Pedwar angladd wedi eu cynnal yn ystod Medi /Hydref ond sieciau heb gyrraedd y Clerc eto

I'w trafod hefyd

- Asesu Risg
  Angen diweddaru yr Asesiad Risg bellach i gyfro'r pandemig ynghyd a'n cyfrifoldeb i gefnogi y pwyllgorau Rheoli yn ein dwy Ganolfan Gymunedol.
  Nodi fod angen ymdrin a'r pwyntiau gweithredu oedd wedi eu adnabod 2019-20
  Cynnigiodd y Cadeirydd fynd drwy'r asesiad a dod yn ol gydag awgrymiadau i'r IBC cyn eu argymell i'r Cyngor Llawn
  **Diolchwyd iddi am y cynnig**
- Diweddariad Prosiect Ysgol Y Faenol
  Y Cadeirydd wedi derbyn gwahoddiad gan y Rheolwr Prosiect i ymweld a'r safle ynghyd a gwahoddiad i'r Pwyllgor rheoli ddewis lliwiau. 'Roedd y gwahoddiad yn ymestyn i rhywrai o'r Cyngor ymweld hefyd unwaith byddai dyddiad wedi ei drefnu
  Derbynwyd y Cynnig a chytunwyd i'r Cyng D Jones-Morris a'r Clerc ymweld ar ran y Cyngor

Prosiectau angen sylw

1. Cae Chwarae Caerhun
   Bellach 'roedd 2 ddyfnbris wedi eu derbyn am ail-wynebu'r teils diogelwch ag am offer newydd **Argymell cadw at sicrhau diogelwch am y tro ag i'r Cyngor Llawn drafod y prisiau**

2. Lon i gyfeiriad Canolfan Glasinfryn
   Esbonwyd fod peth gwaith wedi ei wneud nol yn 2014 i drio darganfod pwy ydi perchenog y lon a felly cyfrifoldeb pwy ydi sicrhau ei bod mewn cyflwr diogel.
   Tra bod gennym rhywfaint o dystiolaeth o gyfathrebu nid oes ymatebion. Oherwydd hynny nid yw'n yn glir pam na chytunwyd i gario'r gwaith allan yn 2014 tae y cyfrifoldeb wedi syrthio i'r Cyngor yma. **Awgrymwyd i'r Clerc gysylltu yn gyntaf gyda Chyfreithwyr y Cyngor**

3. Diffibs ychwanegol
   Trafodwyd cario ymlaen i archebu mwy o beiriannau Diffib i ychwanegu at y 5 archebwyd 2019-20. Argymell i'r Cyngor Llawn ein bod yn prynu 3 ychwanegol eleni a tri yn 2021-22 a thrafod lleoliadau yn y Cyngor Llawn
   Argymell hefyd ein bod yn ceisio gosod Diffib Glasinfryn, oedd, oherwydd y pandemig, heb ei osod ar y ty preswyl i gael ei osod ar bolyn, wrth lamp stryd, fel mae y 4 arall
   Argymell hefyd fod y tri ychwanegol yn cael eu gosod ar bolion yn y lleoliadau gaiff ei adnabod.

4. Garddwr i'r bocsus Blodau
   Yn sgil trafferthion y pandemig a methu cael cyflewr/aig i edrych ar ol y 10 bocs presennol 'roedd y Clerc wedi gofyn am bris i un o'n contarctwyr torri llwybrau. 'Roedd wedi derbyn pris o £120 y bocs y flwyddyn fyddai'n cynnwys cyflenwi planhigion - dyfrio – bwydo a chadw golwg ar y cyfan.
   Argymell i'r Cyngor Llawn ein bod yn derbyn y pris ag i'r gwaith gychwyn rhag blaen

U F A
Soniodd Cyng D W Jones ei bryder ynglyn a cherddwyr yn cael eu bygwth wrth gerdded heibio hen Ysgol Glan Menai/Treborth yn y Cyngor Llawn gan iddo fod yn ymwybodol fod sawl unigolyn wedi cael trafferthion bygythiol gan y perchennog presennol

Newid Graddfeydd Cyflog y Clerc - Rhannodd y Clerc y wybodaeth oedd wedi ei dderbyn taflen yn dangos newidiadau tal Clercod yn genedlaethol . Ar lefel cyflog pwynt 23 mae y raddfa yn newid o £14.03 i £14.42 Codiad cyflog o 39c yr awr

- **Cadeirydd i gysylltu a'r cyfrifwyr sy'n gwneud y cyflog ar ein rhan**

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30